# Adroddiadau Ymchwiliad Llifogydd Adran 19
# Cynllun Gweithredu

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

Taflen Rheoli Dogfen

| Dyddiad | Rhif Fersiwn | Crynodeb o'r Newidiadau |
|---|---|---|
| 20/07/2026 | 1 | Cyhoeddiad Cyntaf |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

Cynnwys


Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Brychdyn 3

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Bretton 5

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Sandycroft 7

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 - Ardaloedd sydd wedi'u Cysylltu'n Hydrolig yn yr Wyddgrug 10

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 – Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows 12

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Pontblyddyn 15

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Pontybodkin 17

Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Oakenholt 19

| Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Brychdyn | | |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Awdurdod Priffyrdd | Adolygu amlder y gwaith glanhau gylïau yn yr ardaloedd a effeithiwyd, er enghraifft ar hyd The Rowans. | Rydym ni'n anelu at lanhau'r gylïau i gyd ar y briffordd gyhoeddus unwaith y flwyddyn, ond bydd rhai draeniau yn cael eu glanhau ddwywaith y flwyddyn ac ar ôl cael rhybudd am dywydd garw, yn seiliedig ar y risg o lifogydd. |
| Yr Awdurdod Priffyrdd a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Archwilio mewnfa'r geuffos bresennol, Cyfeirnod Ased Cyngor Sir y Fflint: AM0060. NGR: 333346, 363367 (Ffordd yr Wyddgrug) yn aml, gan dynnu'r gweddillion yn ôl y gofyn. | Mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/2027, er mwyn gwneud gwaith gwella i'r sgrin brigau sy'n gysylltiedig â'r geuffos hon, yn amodol ar gytundebau gan berchnogion tir lleol. |
| Yr Awdurdod Priffyrdd a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ymgymryd ag arolwg cyflwr Teledu Cylch Caeëdig o geuffos Ffordd yr Wyddgrug i adolygu'r cyflwr/siltio presennol. Cynllunio i gymryd camau adferol yn ôl yr angen. | Bydd arolwg cyflwr yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r gwaith ar y sgrin brigau ar Ffordd yr Wyddgrug.  Cynhaliwyd archwiliad Teledu Cylch Caeëdig o system Cherry Dale ym mis Mawrth 2026. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y risg o lifogydd. | Cydweithio parhaus â Grŵp Gweithredu ar Lifogydd Bretton a Brychdyn. Roedd y cyfarfod ffurfiol mwyaf diweddar ar 28 Tachwedd 2025. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ymchwilio i reoli llifogydd yn naturiol i fyny'r afon o fewnfa ceuffos Ffordd yr Wyddgrug, Cyfeirnod Ased CSFf: AM0060. NGR: 333346, 363367. | Mae system reoli llifogydd yn naturiol wedi'i modelu ar gyfer dalgylch Brychdyn ac mae rhagor o gyllid wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. |
| Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac ymchwilio i rannau cysylltiedig y system garthffos gyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / gweddillion sylweddol yn dilyn y digwyddiad ym mis Hydref 2023. | Yn mynd rhagddo. |
| Asiant Cefnffyrdd Gogledd a | Archwilio mewnfa ceuffos Brychdyn 0060 C50 o dan yr A55 yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn rhydd o unrhyw rwystr / gweddillion. | Bydd gwastraff yn cael ei dynnu a gwiriadau'n cael eu gwneud o'r sgrin brigau bob mis. Gellir rhoi gwybod am unrhyw broblemau yn y lleoliad hwn i www.traffic.wales/flooding-and-drainage |

| | | |
|---|---|---|
| Chanolbarth Cymru | | |
| Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | Teledu Cylch Caeëdig yng ngheuffos Pentrobin 0120 C10 yr A55 i sicrhau fod y geuffos yn rhydd o unrhyw rwystr ac unrhyw siltio sylweddol. Cymryd camau adferol yn ôl yr angen. | Cynhaliwyd prif archwiliad yn 2020 ac archwiliad cyffredinol yn 2024. Nid yw Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi nodi bod unrhyw rwystr neu wastraff yn y geuffos. Mae hefyd yn bosibl gweld o un pen o'r geuffos i'r llall. Ar hyn o bryd, nid oes angen arolwg Teledu Cylch Caeëdig ychwanegol. Bydd gwastraff yn cael ei glirio bob 2 flynedd yn rhan o'r gwaith cynnal a chadw rheolaidd. |
| Grŵp Gweithredu ar Lifogydd Brychdyn a Bretton | Parhau i ymgysylltu â phreswylwyr i helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion lleol sy'n ymwneud â llifogydd. | Yn mynd rhagddo. |
| Perchnogion Eiddo / Preswylwyr | Ystyried gosod mesurau i hybu gwytnwch eiddo rhag llifogydd. Gallai'r rhain gynnwys gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. | www.thefloodhub.co.uk/pfr |

| Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Bretton | | |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Awdurdod Priffyrdd | Cynnal adolygiad ar ôl y digwyddiad o asedau priffordd er mwyn sicrhau eu bod yn weithredol. | Nodwyd bod yr asedau priffyrdd i gyd yn gweithio ac yn weithredol yn y lleoliadau hysbys. Rydym ni'n anelu at lanhau'r gylïau i gyd ar y briffordd gyhoeddus unwaith y flwyddyn, ond bydd rhai draeniau yn cael eu glanhau ddwywaith y flwyddyn ac ar ôl cael rhybudd am dywydd garw, yn seiliedig ar y risg o lifogydd. |
| Awdurdod Priffyrdd | Adolygu amserlen cynnal a chadw asedau priffyrdd yn yr ardal hon, i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei wneud mewn mannau problemus o ran llifogydd. | Caiff mannau yn yr ardal lle ceir problemau eu harchwilio a'u monitro cyn unrhyw ddigwyddiad tywydd, a chânt eu monitro drwy gydol digwyddiad llifogydd, yn unol â'r Polisi Draenio Priffyrdd. |
| Awdurdod Priffyrdd | Ystyried gweithredu cynlluniau rheoli traffig y gellir eu rhoi ar waith pan fo rhagolygon o storm, er mwyn atal cerbydau sy'n pasio rhag creu tonnau blaen sy'n gwaethygu'r llifogydd. | Gall ffyrdd gael eu cau gan Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir y Fflint, yr Heddlu a/neu'r Timau Tân ac Achub. |
| Yr Awdurdod Priffyrdd a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ymchwilio gwelliannau capasiti lleoli i liniaru'r risg o lifogydd, gan gynnwys defnyddio asedau priffyrdd. | Comisiynwyd ymchwiliad ag ymgynghorwyr allanol, y cafodd ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. Daethpwyd i'r casgliad yn yr adroddiad nad oes unrhyw waith gwella ychwanegol ar hyn o bryd a fyddai'n bodloni meini prawf ariannu Llywodraeth Cymru. |
| Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a Chyfoeth Naturiol Cymru | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y risg o lifogydd. | Cydweithio parhaus â Grŵp Gweithredu ar Lifogydd Bretton a Brychdyn. Roedd y cyfarfod ffurfiol mwyaf diweddar ar 28 Tachwedd 2025. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ymchwilio dichonoldeb cynllun lliniaru llifogydd i reoli a lleihau dŵr ffo sy'n mynd ar briffyrdd oddi ar dir cyfagos. | Comisiynwyd ymchwiliad ag ymgynghorwyr allanol, y cafodd ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. Daethpwyd i'r casgliad yn yr adroddiad nad oes unrhyw waith gwella ychwanegol |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar hyn o bryd a fyddai'n bodloni meini prawf ariannu Llywodraeth Cymru. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau yr archwilir prif afonydd yn rheolaidd yn ôl lefel y risg a, lle bo’n briodol a bod modd cyfiawnhau hynny, bod Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a/neu Berchennog Glannau'r Afon yn dogfennu ac yn cadw at drefn cynnal a chadw. | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyrsiau dŵr prif afonydd ac asedau, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw arferol ac adweithiol yn ystod y flwyddyn.  Pan fydd larymau glaw trwm yn canu, mae staff gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio ac yn clirio sgriniau brigau a oedd wedi’u rhwystro yn ogystal ag asedau hanfodol, er mwyn helpu i gario dŵr llifogydd. Mae’r gwasanaeth yn 24/7 ac ar gael drwy’r flwyddyn. |
| Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac ymchwilio i rannau cysylltiedig y system garthffos gyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / gweddillion sylweddol yn dilyn y digwyddiad ym mis Hydref 2023. | Yn mynd rhagddo. |
| Grŵp Gweithredu ar Lifogydd Brychdyn a Bretton | Parhau i ymgysylltu â phreswylwyr i helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion lleol sy’n ymwneud â llifogydd. | Yn mynd rhagddo. |
| Perchnogion Eiddo / Preswylwyr | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai’r rhain gynnwys gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. | www.naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings<br>www.thefloodhub.co.uk/pfr |

| Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Sandycroft | | |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Awdurdod Priffyrdd | Adolygu asedau priffordd ar ôl y digwyddiad er mwyn sicrhau eu bod yn weithredol. | Nodwyd bod yr asedau priffyrdd i gyd yn gweithio ac yn weithredol yn y lleoliadau hysbys. Rydym ni'n anelu at lanhau'r gylïau i gyd ar y briffordd gyhoeddus unwaith y flwyddyn, ond bydd rhai draeniau yn cael eu glanhau ddwywaith y flwyddyn ac ar ôl cael rhybudd am dywydd garw, yn seiliedig ar y risg o lifogydd. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ymchwilio i fesurau rheoli llifogydd naturiol posibl yn y dalgylch i fyny'r afon i geisio gwanhau llifogydd. | Comisiynwyd ymchwiliad ag ymgynghorwyr allanol, y cafodd ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. Daethpwyd i'r casgliad yn yr adroddiad nad oes unrhyw waith gwella ychwanegol ar hyn o bryd a fyddai'n bodloni meini prawf ariannu Llywodraeth Cymru. Bydd rhagor o drafodaethau'n cael eu cynnal ar ôl cwblhau gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Awdurdod Priffyrdd, Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a Chyfoeth Naturiol Cymru | Ymchwilio gwelliannau capasiti lleoli i liniaru'r risg o lifogydd, gan gynnwys defnyddio asedau priffyrdd. | Ar ran Cyngor Sir y Fflint, gwnaeth ein contractwyr ddisodli neu atgyweirio chwe cheuffos sy'n croesi'r briffordd i mewn i Nant Brychdyn. Mae'r rhain wedi'u lleoli ar hyd Ffordd Caer rhwng Moor Lane a Manor Lane (Airbus) - cafodd gwaith glanhau'r cwrs dŵr ei ymestyn i ymdrin â'r ardal 1.25km hwn. Yn ogystal â chwblhau'r gwaith hwn, mae falfiau un ffordd wedi'u gosod. |
| Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol a Chyfoeth Naturiol Cymru | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y risg o lifogydd. | Cydweithio parhaus â Grŵp Gweithredu ar Lifogydd Sandycroft ac mae tudalen we wedi'i gosod er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i breswylwyr yn ystod y gwaith - www.ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/north-east-gogledd-ddwyrain/sandycroft-and-pentre-drain-flood-remediation-work Datganiad Cyfoeth Naturiol Cymru - "byddem ni'n atgoffa pob preswylydd sy'n berchen ar dir ger y cwrs dŵr o'u cyfrifoldebau cyfreithiol o ran cynnal a chadw gwely a glannau'r cwrs dŵr. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r coed a'r llwyni sy'n tyfu ar y glannau a sicrhau bod dŵr yn llifo heb rwystrau neu lygredd. Dylai'r glannau gael eu cadw'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhydd o unrhyw beth a allai achosi rhwystr a chynyddu'r risg o lifogydd. Rydym ni'n annog preswylwyr i roi gwybod am unrhyw achlysur lle mae deunydd wedi'i ollwng yn y cwrs dŵr neu am unrhyw bryderon am rwystrau i Gyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 neu drwy ein gwefan: Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhoi Gwybod am Ddigwyddiad." |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Parhau i arolygu a chynnal a chadw'r prif afonydd yn yr ardal (Draen Gogleddol Pentre, Draen Deheuol Pentre a Nant Brychdyn) i sicrhau eu bod yn llifo'n ddirwystr. | Mae llawer o wastraff a deunyddiau wedi'u tynnu o'r cwrs dŵr hwn sy'n mynd drwy geuffos. Mae gostyngiad yn lefelau dŵr lleol wedi cael ei arsylwi yn dilyn y gwaith hwn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cysylltu â chydweithwyr yng Nghyngor Sir y Fflint ac maen nhw bellach wedi gosod sawl sgrin brigau mewn lleoliadau allweddol i leihau'r risg o ddeunyddiau'n mynd i mewn i'r geuffos yn y dyfodol. Mae arolwg llawn o brif sianeli'r afon, boed yn rhai agored neu rai sy'n mynd drwy geuffos wedi'i gwblhau yn Sandycroft. Mae ymgynghorwyr ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn llunio'r manylion terfynol ar hyn o bryd, y bydd yn cael ei rannu â Chyngor Sir y Fflint pan fydd ar gael. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Ystyried cynllun cyfalaf i wella'r arllwysfa lanw a'r falfiau clec | Mae hyn yn cael ei ddatblygu yn rhan o gam nesaf cynllun Sandycroft a Pentre, ond mae'r amserlenni wedi llithro, ac nid yw'n debygol y bydd y gwaith adeiladu'n dechrau tan flwyddyn ariannol 2026/27 ar y cynharaf. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Ymchwilio i ddichonoldeb gosod cyfarpar pwmpio naill ai mewn gorsaf bwmpio neu ar safleoedd penodol dros dro i bwmpio llif storm oddi wrth ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. | Mae gwaith lleol diweddar wedi gwella dibynadwyedd y system bwmpio. |
| Grŵp Gweithredu ar Lifogydd Sandycroft | Parhau i ymgysylltu â phreswylwyr i helpu i godi ymwybyddiaeth o faterion lleol sy'n ymwneud â llifogydd. | Yn mynd rhagddo. |
| Perchnogion Eiddo / Preswylwyr | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai'r rhain gynnwys: gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio | www.naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings<br>www.thefloodhub.co.uk/pfr |

| | | |
|---|---|---|
| | preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. | |

| **Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Ardaloedd sydd wedi'u Cysylltu'n Hydrolig yn yr Wyddgrug** | | |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Perchnogion Glannau'r Afon | Archwilio mewnfa'r geuffos bresennol yn Highfield Villas yn rheolaidd a chael gwared ar y malurion yn ôl yr angen. | Yn 2026/27, mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wedi gweithio gyda pherchennog glannau'r afon i geisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddisodli a gwella'r sgrin brigau bresennol. Yn 2025/26, gweithiodd yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol gyda pherchnogion glannau'r afon i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i osod nifer o nodweddion rheoli llifogydd naturiol, er mwyn arafu'r llif a dal gwastraff. |
| Awdurdod Priffyrdd | Ar ôl y digwyddiad, dylid cynnal arolwg cyflwr Teledu Cylch Caeëdig o gydlifiad ceuffos Brook Street i sicrhau nad oes rhwystrau nac unrhyw siltio sylweddol yn y geuffos. Cymryd camau adferol yn ôl yr angen. | Mae arolwg cyflwr wedi'i gynnal a gwaith adfer wedi'i wneud, ond mae angen gwneud ymchwil ychwanegol a chynnal rhagor o arolygon cyflwr o ganlyniad i faint isadeiledd y rhwydwaith. |
| Awdurdod Priffyrdd | Parhau i gynnal a chadw asedau draenio priffyrdd mewn ardaloedd risg uchel. Er enghraifft, ar Brook Street a Ffordd Rhuthun. | Mae gan bob ased priffyrdd waith cynnal a chadw rheolaidd wedi'i drefnu. Rydym ni'n anelu at lanhau'r gylïau i gyd ar y briffordd gyhoeddus unwaith y flwyddyn, ond bydd rhai draeniau yn cael eu glanhau ddwywaith y flwyddyn ac ar ôl cael rhybudd am dywydd garw, yn seiliedig ar y risg o lifogydd. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y risg o lifogydd. | Yn mynd rhagddo. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ymchwilio i weithredu rheolaeth llifogydd naturiol i fyny'r afon o'r ardaloedd yr effeithir arnynt gan lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin / dŵr wyneb, sef mewnfeydd ceuffosydd Fir Grove a Highfield Villas. | Sicrhawyd grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol gan Lywodraeth Cymru i gynnal prosiect i fyny'r afon o Ysgol Maes Garmon. Cwblhawyd y cynllun ym mis Hydref 2025. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Adolygu cyflwr y cyrsiau dŵr cyffredin a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. Bod y Cyngor yn arfer ei ddyletswyddau a phwerau caniataol dan y | Yn mynd rhagddo - mae'n rhan o ddyletswyddau'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ddeddf Draenio Tir a'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr fel bod dŵr yn llifo drwy fewndyllau ceuffosydd, cyrsiau dŵr a bod ceuffosydd yn cael eu cynnal a'u cadw i gludo'r llif fel y bwriedir. | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau yr archwilir prif afonydd yn rheolaidd yn ôl lefel y risg a, pan fo'n briodol a bod modd cyfiawnhau hynny, bod Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a/neu Berchennog Glannau'r Afon yn dogfennu ac yn cadw at drefn cynnal a chadw. | Yn mynd rhagddo - Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyrsiau dŵr prif afonydd ac asedau, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw arferol ac adweithiol yn ystod y flwyddyn. Pan fydd larymau glaw trwm yn canu, mae staff gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio ac yn clirio sgriniau brigau a oedd wedi'u rhwystro yn ogystal ag asedau hanfodol, er mwyn helpu i gario dŵr llifogydd. Mae'r gwasanaeth yn 24/7 ac ar gael drwy'r flwyddyn. |
| Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac ymchwilio i rannau cysylltiedig y system garthffos gyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / gweddillion sylweddol yn dilyn y digwyddiad ym mis Hydref 2023. | Yn mynd rhagddo. |
| Perchnogion Eiddo / Preswylwyr | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai'r rhain gynnwys gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. | www.naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings<br>www.thefloodhub.co.uk/pfr |

| Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 – Meadowside, Queens Park, Holland Cottages ac Alyn Meadows | | |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Awdurdod Priffyrdd | Ardal Queens Park - archwilio'r ceuffosydd islaw Cilnant, Parc Hendy a Clayton Road yn gyson a chael gwared â malurion yn ôl y gofyn. Llunio Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer cynnal a chadw ceuffosydd a'i fabwysiadu. | Dylai'r archwiliad gael ei gwblhau bob pythefnos yn y gaeaf, a bob mis yn yr haf.<br>Bydd archwiliadau ad hoc yn cael eu cynnal ar ôl cael rhybudd tywydd / adroddiadau gan gwsmeriaid. |
| Awdurdod Priffyrdd | Ardal Holland Cottages - archwilio pont fwa Black Brook ac i fyny'r sianel yn gyson am falurion a rhwystrau a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. | Mae'r bont yn cael archwiliadau cyffredinol yn ogystal â phrif archwiliadau. Yn ystod archwiliadau, caiff unrhyw bryderon ynghylch cynnal a chadw'r cwrs dŵr eu trosglwyddo i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i gysylltu â pherchnogion glannau'r afon. |
| Awdurdod Priffyrdd | Dal i gynnal a chadw asedau priffyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd â risg uchel. | Mae gan bob ased priffyrdd waith cynnal a chadw rheolaidd wedi'i drefnu. Rydym ni'n anelu at lanhau'r gylïau i gyd ar y briffordd gyhoeddus unwaith y flwyddyn, ond bydd rhai draeniau yn cael eu glanhau ddwywaith y flwyddyn ac ar ôl cael rhybudd am dywydd garw, yn seiliedig ar y risg o lifogydd. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ardal Meadowside - adolygu cyflwr y cyrsiau dŵr cyffredin (ceuffosydd) a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblemau. | Wedi'i gwblhau. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ardal Meadowside - ystyried cynllun i ffurfioli'r cysylltiad rhwng dŵr ffo o'r dalgylch i fyny'r nant a'r rhan o'r cwrs dŵr sydd dan geuffos. | Comisiynwyd ymchwiliad ag ymgynghorwyr allanol, a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ardal Queens Park - ystyried cynllun i osod rhwyllau newydd, lletach ym mewndwll y geuffos fel nad ydynt yn atal llif y dŵr. | Comisiynwyd ymchwiliad ag ymgynghorwyr allanol, a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Ardal Holland Cottages - dal i ymchwilio i ganfod yr hyn a achosodd i gwrs dŵr Black Brook orlifo gerllaw'r bont fwa. | Comisiynwyd ymchwiliad ag ymgynghorwyr allanol, a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch | Yn mynd rhagddo. |

| | | |
|---|---|---|
| Arweiniol | eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y risg o lifogydd. | |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Os oes cyllid ar gael, ystyried rhoi dulliau ar waith i reoli llifogydd i fyny’r nant o’r ardaloedd lle bu llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin / dŵr wyneb. | Comisiynwyd ymchwiliad ag ymgynghorwyr allanol, a chafodd ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Bod y Cyngor yn arfer ei ddyletswyddau a phwerau caniataol dan y Ddeddf Draenio Tir a’r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr fel bod dŵr yn llifo’n ddi-rwystr drwy fewndyllau ceuffosydd, cyrsiau dŵr a bod ceuffosydd yn cael eu cynnal a’u cadw i gludo’r llif fel y bwriedir. | Yn mynd rhagddo. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Archwilio ac adolygu dyluniad, cyflwr ac addasrwydd yr arglawdd sy’n amddiffyn y tir ger Blackbrook Road (Holland Cottages) rhag llifogydd o afon Alun, i ganfod a yw’n gweithio fel y’i dyluniwyd ynteu a fu Storm Babet yn drech na safon y dyluniad. Efallai y bydd angen gwaith ychwanegol. | Yn aros i gychwyn – Adolygiad o berfformiad asedau i'w gynnwys mewn pecynnau gwaith yn y dyfodol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Afon Alyn wedi cael ei hailfodelu i ail-asesu'r risg o lifogydd. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau yr archwilir prif afonydd yn rheolaidd yn ôl lefel y risg a, lle bo’n briodol a bod modd cyfiawnhau hynny, bod Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a/neu Berchennog Glannau'r Afon yn dogfennu ac yn cadw at drefn cynnal a chadw. | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i wneud gwaith cynnal a chadw ar gyrsiau dŵr prif afonydd ac asedau, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg. Mae hyn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw arferol ac adweithiol yn ystod y flwyddyn. Pan fydd larymau glaw trwm yn canu, mae staff gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio ac yn clirio sgriniau brigau a oedd wedi’u rhwystro yn ogystal ag asedau hanfodol, er mwyn helpu i gario dŵr llifogydd. Mae’r gwasanaeth yn 24/7 ac ar gael drwy’r flwyddyn. |
| Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac ymchwilio i rannau cysylltiedig y system garthffos gyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / gweddillion sylweddol yn dilyn y digwyddiad ym mis Hydref 2023. | Yn mynd rhagddo. |
| Dŵr Cymru | Archwilio dyluniad arllwysfa’r garthffos gyhoeddus ar gyfer dŵr wyneb ger Meadowside. | Yn mynd rhagddo. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ystyried creu cysylltiad ffurfiol â’r geuffos yn hytrach na bod y dŵr yn arllwys ar y ddaear. | |
| Perchnogion Eiddo / Preswylwyr | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai’r rhain gynnwys gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. | www.naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings<br>www.thefloodhub.co.uk/pfr |

| Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Pontblyddyn | | |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Awdurdod Priffyrdd | Archwilio'r fewnfa wrth ymyl Alyn Terrace, ar hyd yr A541, Ffordd Wrecsam yn rheolaidd a thynnu'r malurion yn ôl yr angen. | Dylai'r archwiliad gael ei gwblhau bob pythefnos yn y gaeaf, a bob mis yn yr haf.<br>Bydd archwiliadau ad hoc yn cael eu cynnal ar ôl cael rhybudd tywydd / adroddiadau gan gwsmeriaid. |
| Awdurdod Priffyrdd | Defnyddio TCC ar geuffos yr A541, Ffordd Wrecsam o'r cwrs dŵr wrth ymyl Dingle House i'r arllwysfa yn Afon Alun, i sicrhau nad oes gormod o silt ac unrhyw beth arall yn blocio'r geuffos. Cymryd camau adferol yn ôl yr angen. | Cwblhawyd gwaith ar yr A541 gyferbyn â The Druid Inn; glanhawyd y gylïau a'r allfeydd, a gosodwyd pibell newydd rhwng y gylïau. |
| Awdurdod Priffyrdd | Adolygu amlder gweithgareddau glanhau gylïau mewn ardaloedd perygl uchel, e.e. Alyn Terrace a Riverside Court. | Rydym ni'n anelu at lanhau'r gylïau i gyd ar y briffordd gyhoeddus unwaith y flwyddyn, ond bydd rhai draeniau yn cael eu glanhau ddwywaith y flwyddyn ac ar ôl cael rhybudd am dywydd garw, yn seiliedig ar y risg o lifogydd. |
| Awdurdod Priffyrdd | Ystyried gweithredu cynlluniau rheoli traffig y gellir eu rhoi ar waith pan fo rhagolygon o storm, er mwyn atal cerbydau sy'n pasio rhag creu tonnau blaen sy'n gwaethygu'r llifogydd. | Gall ffyrdd gael eu cau gan yr Awdurdod Priffyrdd, yr Heddlu a/neu'r Timau Tân ac Achub. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i liniaru ar y risg o lifogydd. | Yn mynd rhagddo. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Parhau i reoli'r perygl sy'n gysylltiedig â'r cyrsiau dŵr cyffredin a drafodir yn yr adroddiad hwn a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblem. | Yn mynd rhagddo. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Archwilio manteision mesurau rheoli llifogydd naturiol i fyny'r afon o fewnfa ceuffos yr A541, Ffordd Wrecsam wrth ymyl Dingle House. | Cyflwynwyd datganiad o ddiddordeb i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2025. Dyrannwyd cyllid ar gyfer cynllun ym Mhontblyddyn ar gyfer llednentydd Afon Alyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Sicrhau yr archwilir prif afonydd yn rheolaidd yn ôl lefel y risg a, lle bo’n briodol a bod modd cyfiawnhau hynny, bod Awdurdod Rheoli Risg perthnasol a/neu Berchennog Glannau'r Afon yn dogfennu ac yn cadw at drefn cynnal a chadw. | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i archwilio holl brif sianeli'r afonydd yn ac o amgylch Pontblyddyn yn unol â threfn sy'n seiliedig ar risg. Mae unrhyw ddiffygion a welir yn cael eu cofnodi yn y system rheoli asedau a'u hanfon ymlaen at y partïon perthnasol ar gyfer gweithredu arnynt a/neu er gwybodaeth. Ar hyn o bryd, mae perthynas waith dda rhwng perchnogion glannau'r afon a'u hasiant a Chyfoeth Naturiol Cymru, ac mae unrhyw ddiffygion, sylwadau neu bryderon yn cael eu derbyn mewn modd cadarnhaol a chynhyrchiol. |
| Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac ymchwilio i rannau cysylltiedig y system garthffos gyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / gweddillion sylweddol yn dilyn y digwyddiad ym mis Hydref 2023. Gweld a oes problemau gyda pherfformiad yr orsaf bwmpio garthffosiaeth, yn enwedig y system o gwmpas Hollands Terrace. | Yn mynd rhagddo. |
| Perchnogion Eiddo / Preswylwyr | Cofrestru am ddim â System Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyried rhoi dulliau ar waith i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd. Gallai’r rhain gynnwys: gosod falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. | www.naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings<br>www.thefloodhub.co.uk/pfr |

| Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Pontybodkin | | |
|---|---|---|
| **2023** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Awdurdod Priffyrdd | Archwilio mewnfeydd y ceuffosydd ar hyd Byr Brook / Black Brook yn rheolaidd a chael gwared ar y malurion yn ôl yr angen. | Dylai'r archwiliad gael ei gwblhau bob pythefnos yn y gaeaf, a bob mis yn yr haf.<br>Bydd archwiliadau ad hoc yn cael eu cynnal ar ôl cael rhybudd tywydd / adroddiadau gan gwsmeriaid. |
| Awdurdod Priffyrdd | Cynnal arolwg cyflwr TCC o'r geuffos ger yr iard metel sgrap. Cymryd camau adferol yn ôl yr angen. | I'w gadarnhau. |
| Awdurdod Priffyrdd | Cynyddu amlder y gwaith glanhau gylïau yn yr ardaloedd a effeithiwyd, e.e. ar hyd Ffordd Corwen. | Rydym ni'n anelu at lanhau'r gylïau i gyd ar y briffordd gyhoeddus unwaith y flwyddyn, ond bydd rhai draeniau yn cael eu glanhau ddwywaith y flwyddyn a hyd at bedair gwaith y flwyddyn ar ôl cael rhybudd am dywydd garw, yn seiliedig ar y risg o lifogydd. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cyfathrebu â chymunedau lleol i godi ymwybyddiaeth o ddulliau i hybu gwytnwch eiddo unigol rhag llifogydd i helpu i ddiogelu eiddo. | Yn mynd rhagddo. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Adolygu cyflwr y cyrsiau dŵr cyffredin a drafodir yn yr adroddiad hwn a hysbysu perchnogion glannau'r afon os canfyddir unrhyw broblem. | Yn mynd rhagddo. |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Yn amodol ar gyllid, ystyried cynllun rheoli llifogydd i geisio rheoli a lleihau llif llifogydd o Black Brook a Byr Brook. | Yn mynd rhagddo. Cafodd datganiad o ddiddordeb ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn 2024. |
| Dŵr Cymru | Adolygu cwynion gan gwsmeriaid ac ymchwilio i rannau cysylltiedig y system garthffos gyhoeddus er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystr / gweddillion sylweddol yn dilyn y digwyddiad ym mis Hydref 2023. | Yn mynd rhagddo. |
| Perchnogion Eiddo / | Ystyried gosod mesurau i hybu gwytnwch eiddo rhag llifogydd. Gallai'r rhain gynnwys gosod | www.naturalresources.wales/flooding/sign-up-to-receive-flood-warnings |

| | | |
|---|---|---|
| Preswylwyr | falfiau un ffordd er mwyn atal dŵr llifogydd rhag mynd i mewn i systemau draenio preifat a gosod rhwystrau llifogydd neu lifddorau. | www.thefloodhub.co.uk/pfr |

| **Adroddiad Ymchwiliad Llifogydd Adran 19 Oakenholt** | | |
|---|---|---|
| **2025** | | |
| Budd-ddeiliad | Argymhellion | Cam Gweithredu / Statws Cyfredol |
| Yr Awdurdod Priffyrdd a'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Canfod pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ceuffosydd 1-4 yn Ffigur 4 a hysbysu'r holl fudd-ddeiliaid fel y gellir rhoi gwybod am broblemau yn y dyfodol a'u datrys. | Ceuffos 1: Cyngor Sir y Fflint (yr Awdurdod Priffyrdd)<br>Ceuffos 2: Cartrefi Anwyl<br>Ceuffos 3: Cartrefi Anwyl<br>Ceuffos 4: Cartrefi Anwyl |
| Awdurdod Priffyrdd | Adolygu cyflwr 'Ceuffos 1' a'i chynnal a chadw'n unol â hynny. | Cwblhawyd (wedi tynnu llaid o'r geuffos) |
| Yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol | Cysylltu â pherchnogion tir i lawr y nant er mwyn tynnu llaid o'r cwrs dŵr agored yn is i lawr o ble mae'r dŵr yn arllwys o 'Geuffos 1'. | Wedi'i gwblhau. |
| Holl Berchnogion Glannau'r Afon | Adolygu dulliau cynnal a chadw'r systemau cwrs dŵr cyffredin ar y safle (gan gynnwys cyrsiau dŵr agored  a rhai dan geuffosydd). | Yn mynd rhagddo. |
| Cartrefi Anwyl (Perchennog Glannau'r Afon) | Dal i gydweithio ynghylch draenio'r tir a gosod systemau draenio cynaliadwy yn y dyfodol wrth ddatblygu unrhyw ystâd ac ymgysylltu'n gynnar cyn cyflwyno unrhyw geisiadau cynllunio newydd. | Yn mynd rhagddo. |
| Cartrefi Anwyl (Perchennog Glannau'r Afon) | Dal i adolygu'r ffiniau a'r asedau dan reolaeth, cyfathrebu'n glir â phreswylwyr a'r awdurdodau perthnasol a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â hwy lle bo'n briodol. | Yn mynd rhagddo. |
| Preswylwyr | Ystyried ffurfio Grŵp Gweithredu ar Lifogydd er mwyn helpu i baratoi ar gyfer llifogydd yn y dyfodol a'u rheoli. | Amherthnasol |